

Siarter ar gyfer cleifion, perthnasau a gofalwyr

Rydym yn dymuno darparu gwasanaeth o safon uchel i chi pan fyddwch yn mynegi pryder am feddyg. Dyma chwech ymrwymiad y gallwch eu disgwyl gennym ni.

Byddwn yn:

Eich trin gydag urddas a pharch

Byddwn yn gwrando ar eich pryderon ac yn rhoi digon o amser i chi esbonio'ch sefyllfa. Rydym yn deall eich bod yn mynd trwy gyfnod anodd efallai, a gallwn drefnu cymorth cyfrinachol trwy ein [Gwasanaeth Cymorth Annibynnol](#). Byddwn yn ystyried eich pryderon o ddifrif.

Eich helpu i ddarganfod y ffordd orau o fynegi eich pryder

Rydym yn dymuno eich helpu i fynegi eich pryder i'r sefydliad cywir. Weithiau, ni fydd y sefydliad hwn, ond mewn achosion eraill, efallai y bydd gwahanol sefydliad mewn sefyllfa well i'ch helpu. Os nad yw'ch pryder yn rhywbeth y gallwn ni ddelio ag ef, byddwn yn ceisio'ch helpu i ddod o hyd i'r lle cywir.

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi

Byddwn yn esbonio sut y byddwn yn ystyried eich pryder a sut y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynnydd. Byddwn yn rhoi gwybod i chi a oes unrhyw oedi wedi codi a byddwn yn darparu manylion cyswllt fel y gallwch wybod pwy i gysylltu â nhw am ddiweddariadau neu wybodaeth ychwanegol.

Cyfathrebu mewn ffordd sy'n gweithio i chi

Byddwn yn addasu ein gweithgarwch cyfathrebu er mwyn bodloni eich anghenion chi yn y ffordd orau. Rydym yn dymuno sicrhau ei bod mor hawdd ag y bo modd i chi ddeall y wybodaeth y byddwn yn ei rhoi i chi a'r penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud. Gallwch siarad â ni dros y ffôn, ysgrifennu atom neu anfon neges e-bost. Mae'n gwasanaeth cyswllt cleifion yn cynnig cyfarfodydd wyneb yn wyneb os byddwn yn penderfynu agor ymchwiliad am eich pryderon.

Trin eich gwybodaeth yn ofalus

Byddwn yn cynnal cyfrinachedd gymaint ag y bo modd. Os byddwn yn credu bod angen i ni rannu eich gwybodaeth neu'ch manylion gydag eraill y tu allan i'ch sefydliad er mwyn ein helpu i ddelio â'ch pryder, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac yn ceisio'ch safbwyntiau.

Dysgu o'ch profiad gyda ni

Efallai na fyddwn yn gallu cynnig y canlyniad neu'r ateb yr ydych yn ei ddymuno bob amser, ond rydym yn dymuno dysgu o'ch profiad o fynegi pryder i ni. Os byddwn wedi gwneud camgymeriad, byddwn yn ymddiheuro. Byddwn yn defnyddio'ch adborth i wella ein gwasanaethau.